# Wythnos 2 / Oedran Iau CA2
# Gwreiddiau ac Ystyr

## Cynllun y sesiwn

**Prif neges:** 'Duw a'th wnaeth yn archarwr!'

### Adnod allweddol:

**Effesiaid 2:10**

*'Duw sydd wedi'n gwneud ni beth ydyn ni. Mae wedi'n creu mewn perthynas â'r Meseia Iesu, i ni wneud yr holl bethau da mae e wedi'u trefnu ymlaen llaw i ni eu gwneud.'*

### Resources:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Delweddau o dagiau graffiti | Tudalennau A4 wedi'u rhannu'n bedair adran - un ar gyfer pob plentyn | Pinnau ysgrifennu | Papur sbâr | Lluniau PowerPoint ar gyfer adran 'Mae Duw yn ein hadnabod' |
| Drych | Eitemau cyffredin fel peiriant torri gwair, sychwr gwallt, cyfrifiadur, morthwyl, agorwr tuniau | Lluniau o bethau annisgwyl - carped wedi'i falu, reis heb ei goginio ac wedi ei wasgaru, pryd bwyd microdon heb ei goginio yn eistedd ar gyfrifiadur, wy wedi torri neu bowlen wedi torri, pensil wedi'i jamio mewn agorwr tun | Beiro arbennig ar gyfer golau uwchfioled | Tortsh |

**GWREIDDIAU** *AC YSTYR* — **EXODUS** *A RHYDDID* — **ALLTUDIAETH** *A HEDDWCH* — **MESEIA** *A CHARIAD* — **YSBRYD** *A CHYMUNED* — **GOBAITH** *A CHARTREF*

# 'Twirl' o Gariad

Dewiswch wirfoddolwr a rhoi mwgwd arno neu gofynnwch iddo wynebu'r wal (fel na allant weld y tri gwirfoddolwr arall sydd ar fin cael eu dewis). Dewiswch dri gwirfoddolwr arall (gan fod yn ofalus i beidio defnyddio eu henwau wrth eu dewis), a rhowch rifau 2, 3, a 4 iddynt. Rhowch gwestiwn yr wythnos i wirfoddolwr rhif 1 - os nad oes mwgwd arno gall ddarllen y cwestiwn yn uchel, neu os yw yn gwisgo mwgwd, gall yr arweinydd ei ddarllen (os bydd y rhai iau yn ei chael hi'n anodd i ddarllen y cwestiwn, efallai y bydd angen i'r arweinydd ei ddarllen). Dylech annog gwirfoddolwr 1 i wrando'n ofalus ar yr atebion y mae gwirfoddolwyr rhif 2, 3 a 4 yn eu rhoi. Rhaid iddyn nhw ddewis yr ateb gorau - a pwy bynnag maen nhw'n ei ddewis fel yr enillydd fydd yr un maen nhw'n rhannu'r siocled 'Twirl' gyda nhw (gellir defnyddio unrhyw far siocled dau ddarn fel Twix yn lle Twirl).

Cwestiwn yr wythnos hon yw: Pa air yn dechrau gyda 'P' wnaethon ni ei ddysgu yn y Beibl yr wythnos diwethaf? (Ateb: Pwerus.)

Pam mae'r Beibl mor bwerus? (Ateb: Oherwydd mai gair Duw yw'r Beibl a gall newid bywydau pobl.)


***Addasu ar gyfer Zoom***

- Gellir dal chwarae'r gêm os ar Zoom hefyd - yn syml, mae angen i wirfoddolwr 1 roi mwgwd ei hun ymlaen o flaen y sgrin
- Pan ddewiswch eich tri gwirfoddolwr ychwanegol, ysgrifennwch eu henwau ar bapur a'u dal at y sgrin, fel y gallant weld a gwybod pwy rydych chi wedi'i ddewis
- Bydd angen i chi gael bar o Twirl gyda chi wrth eich ymyl i'w ddangos ar y sgrin ac esgus ei roi i'r enillwyr terfynol

# Cychwyn gyda'r Beibl

**Cyfeiriwch at adnod allweddol y Beibl - os ydych chi'n defnyddio papur, ysgrifennwch yr adnod ar ddarnau gwahanol o bapur fel yn y lluniau isod. Darllenwch yr adnod yn uchel gyda'ch gilydd**

**Dechreuwch bob darlleniad gyda'r llinellau hyn:** ***'Mae'r Beibl yn LLAWN o eiriau Duw. Mae'n gist drysor ryfeddol, yn llawn o bethau hardd a phwysig. Beth sydd ganddo i'w ddweud wrthym ni heddiw?'***




***Addasu ar gyfer Zoom***

- Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw cael yr adnod ar PowerPoint a rhannu eich sgrin
- Gallwch hefyd ei ysgrifennu ar bapur a'i ddal i fyny at y sgrin

# Gweithgaredd: Dylunio 'Tag'

Dangoswch rai esiamplau o dagiau graffiti i'r plant (mae modd cael esiamplau ar y we). Esboniwch mai tag graffiti yw'r enw neu'r symbol a ddefnyddir gan arlunydd graffiti i arwyddo eu gwaith celf. Mae'n ffordd arbennig o ysgrifennu eu henw eu hunain. Gofynnwch i'r plant siarad am eu hoff esiampl. Rhowch ddarn o bapur i bawb a gwahoddwch y grŵp i ddylunio eu tag graffiti eu hunain yn seiliedig ar eu henw - gofynnwch iddynt esbonio sut y gwnaethant ddewis y lliwiau a'r arddull i greu eu tag personol.

**Cymhwyso:** Mae'ch tagiau'n waith celf. Pob un yn unigryw. Pob un yn arbennig. Mae'r Beibl yn dweud mai Duw a'n gwnaeth ni. Rydyn ni hefyd i gyd yn unigryw, pob un yn arbennig - mae hyn oherwydd bodau dynol yw'r UNIG beth a wnaeth Duw i fod yn debyg iddo.

# Gweithgaredd: Gwnaeth Duw ti ... a phopeth arall ... ond ti yn bennaf

Adroddwch stori'r creu yn gyflym gan ddefnyddio'r braslun isod, gan ddefnyddio'r symudiadau a nodir - y cyflymder wrth wneud hyn sy'n gwneud y gweithgaredd hwn yn hwyl. Ailadroddwch y stori gyfan tua thair gwaith, gan fynd yn gyflymach bob tro. Rhowch ddwy her i'r grŵp wrth iddyn nhw wrando ar y stori:

**Her 1:** Ceisiwch gofio beth a gafodd ei greu bob dydd

**Her 2:** Pan rydych yn clywed am bobl yn cael eu creu, ceisiwch fod y cyntaf i sefyll ar eich traed a gweiddi allan: 'Gwnaeth Duw fi, a fi yw ei gampwaith!' (Mae'r cyntaf i wneud hyn yn cael gwobr.)

***Addasu ar gyfer Zoom:*** gall y wobr fod yn glod am ennill neu gallwch anfon gwobr go iawn atynt yn y post).

1. Yn y dechrau roedd hi'n dywyll ac yn wag - OND roedd Duw.

    **Symudiadau:** rhowch eich dwylo dros eich llygaid ac yna'n ddramatig cyhoeddwch 'Da Ra!, Da Ra'.

2. Diwrnod 1 - 'Bydded goleuni,' meddai Duw. Ac fe ddaeth goleuni. Galwodd y goleuni yn ddydd a'r tywyllwch yn nos.

    **Symudiadau:** Gwnewch siâp dwylo mawr pefriog fel 'goleuni' ac yna rhoi eich llaw wrth ochr eich pen gan esgus cysgu ar gyfer 'nos', ac i fyny ac yn effro ar gyfer 'ddydd'.

3. Diwrnod 2 - Gwnaeth Duw yr awyr uwchben y byd a'r môr ar y gwaelod.

    **Symudiadau:** gwnewch siâp awyren yn hedfan ar gyfer yr 'awyr' a siâp breichiau yn nofio ar gyfer y 'môr'.

4. Diwrnod 3 - Yna creodd Duw y dyfroedd. Fe wnaethon i'r dŵr rolio'n ôl a gwnaeth Duw dir, yna fe lanwodd y tir â phlanhigion a choed a blodau.

    **Symudiadau:** Stampiwch ar y llawr ar gyfer 'tir' ac esgus pigo ac arogli blodyn ar gyfer planhigion ac ati.

5. Diwrnod 4 - Gwnaeth Duw yr haul, y lleuad, y planedau a'r sêr.

    **Symudiadau:** estynwch eich breichiau allan yn llydan gan chwifio'ch bysedd ar gyfer yr haul a gwneud eich corff yn siâp hanner lleuad ar gyfer y lleuad; ar gyfer y sêr fflachiwch eich bysedd.

6. Diwrnod 5 - Gwnaeth Duw bysgod i lenwi'r môr ac adar i lenwi'r awyr.

    **Symudiadau:** Gwnewch siâp ceg pysgodyn yna breichiau'n fflapio fel aderyn yn hedfan.

7. Diwrnod 6 - Gwnaeth Duw bob anifail y gallwch chi feddwl amdano i lenwi'r tir.

    **Symudiadau:** Gwnewch gymaint o synau anifeiliaid ag y gallwch, gyda symudiadau hefyd os yn bosib.

8. Ar yr un diwrnod, gwnaeth Duw y creadur mwyaf rhyfeddol oll, yr UNIG beth a wnaeth Duw a oedd yn debyg iddo. Gwnaeth Duw bobl.


    **Symudiadau:** Gwnewch naid seren a dweud 'Campwaith Duw ydw i'.

9. Diwrnod 7 - Gorffwysodd Duw.

    **Symudiadau:** Gorweddwch ar y llawr, cau eich llygaid a chwyrnu.

**CWESTIWN:** A wnaeth y plant sylwi ar y peth pwysicaf a wnaeth Duw?

**Cymhwyso:** Mae'r Beibl yn dweud o'r cychwyn cyntaf mai pobl, fel chi a fi, yw'r unig beth a wnaeth sydd yn debyg iddo ef. Rydym wir yn gampwaith ganddo, yn waith celf.



# Gweithgaredd: Rwyt ti'n Archarwr

Rhowch ddalen A4 i bob plentyn wedi'i rhannu'n bedair adran. Gwahoddwch nhw i ddychmygu eu bod ar fin dod yn arch-arwr! Gwahoddwch nhw i gwblhau'r atebion i'r canlynol ar y ddalen bapur:

- **Sgwâr 1:** Dy enw archarwr
- **Sgwâr 2:** Dy wisg archarwr
- **Sgwâr 3:** Pa archbŵer sydd gen ti
- **Sgwâr 4:** Symudiad neu arf arbennig (e.e. Thor yn siglo ei forthwyl)

**Cymhwyso:** Gwnaeth Duw dy greu di. Fe wnaeth ti i fod yn debyg iddo ef. Rwyt ti a fi wedi'n creu gan Dduw, sef y bod MWYAF yn y bydysawd, y mwyaf pwerus erioed. Creodd Duw ni i fod yn debyg iddo. Mae hynny'n ein gwneud ni'n wirioneddol archarwyr!

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Mae modd mynd ati i adeiladu eich arch-arwr gyda'ch gilydd. Mae'r arweinydd yn tynnu llun yr hyn y mae'r plant yn ei benderfynu arno ar ddarn mawr o bapur iddynt ei weld (neu ar y cyfleuster bwrdd gwyn sydd ar gael ar Zoom)
- Bydd angen gofalu bod pawb yn hapus gyda'r cymeriad gorffenedig
- Caniatewch amser am hwyl wrth greu

# Gweithgaredd: Mae Duw yn dy adnabod

Ar gyfer pob 'Mae Duw yn adnabod/gwybod...' chwiliwch am lun perthnasol; mae syniadau yn cael eu hawgrymu isod. Pan greodd Duw chi, fe wnaeth o wir greu 'arch-arwr' - meddyliodd am bob manylyn bach wrth iddo eich creu:

1. Roedd Duw yn eich adnabod chi cyn iddo eich gwneud chi ym mol eich Mam (babi yn y groth)
2. Mae Duw yn gwybod pryd rydych chi'n eistedd i lawr a phryd rydych chi'n sefyll i fyny (plentyn yn eistedd/sefyll)
3. Mae Duw yn deall eich meddyliau (plentyn yn meddwl neu emoji meddwl)
4. Mae Duw yn gwybod pryd rydych chi'n mynd allan a phryd rydych chi'n gorwedd (plentyn yn gorwedd)
5. Cyn i chi ddweud gair, mae Duw yn gwybod beth fyddwch chi'n ei ddweud (plentyn yn siarad)
6. Fe greodd Duw chi yn unigryw - nid oes unrhyw un arall sy'n debyg i chi (daliwch ddrych yn yr enghraifft hon)
7. Holl ddyddiau eich bywyd mae Duw yn eich adnabod (calendr)
8. Mae Duw yn gwybod beth sydd ar eich calon - beth sy'n digwydd mewn gwirionedd (plentyn yn meddwl)
9. Mae Duw yn gwybod faint o flew sydd ar eich pen (mop o wallt blêr)

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Gall y lluniau un ai cael eu dangos i fyny at y sgrin neu eu gosod mewn cyflwyniad PowerPoint i'w ddangos ar sgrin

# Gweithgaredd: Gwneud yr hyn yr ydym wedi'i gynllunio i'w wneud

Beth am gael ychydig o hwyl gyda hyn? Mae ychydig yn debyg i'r gêm lle mae gennych chi ben, corff a choesau o gymeriadau amrywiol a'u cymysgu. Sicrhewch amrywiaeth o wrthrychau bob dydd fel y rhai isod a gofynnwch i'r plant ystyried beth allai'r canlyniad fod pe byddent yn cael eu defnyddio ar gam. Er enghraifft, 'Sut brofiad fyddai hi pe byddem ni...'

- Wedi defnyddio peiriant torri gwair i lanhau ein carpedi?
- Wedi defnyddio sychwr gwallt i goginio reis?
- Wedi defnyddio cyfrifiadur i gynhesu pryd bwyd microdon?
- Wedi defnyddio morthwyl i gymysgu wy?
- Wedi defnyddio agorwr tuniau i roi min ar bensil?

Gallwch gael hwyl yn siarad am y canlyniadau posibl o gam-ddefnyddio'r gwrthrychau yn y modd hwn.

**Cymhwyso:** Mae pob un o'r eitemau hyn wedi'u cynllunio i wneud gwaith penodol. Os caiff ei ddefnyddio ar gyfer y swydd anghywir, ni fydd y canlyniad yn dda. Creodd Duw ni i fod yn debyg iddo a byw fel ef. Os dewiswn beidio â gwneud hyn, ni fydd y canlyniad fel y bwriadodd Duw ar ein cyfer. Mae Duw eisiau inni ei garu a bod yn debyg iddo.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Gallwch ddangoswch rhai lluniau o'r uchod ar y sgrin
- Gofynnwch i'r plant beth allai ddigwydd pe byddent yn glanhau eu carped gyda pheiriant torri gwair
- Os nad oes gan y grŵp unrhyw syniadau, dangoswch lun iddynt o garped wedi'i dorri

# Gweithgaredd: Wedi'i greu gan ...

Defnyddiwch feiro uwchfioled arbennig (un a ddefnyddir i farcio gwrthrychau gwerthfawr yn eich cartref â'ch cod post) ac ysgrifennwch ar eich braich 'Gwnaed gan Dduw'. Diffoddwch y goleuadau a chan ddefnyddio golau uwchfioled (golau glas) dangoswch i'r plant eich 'marc', eich 'tag' 'Gwnaed gan Dduw '.

**Cymhwyso:** Gwnaeth Duw chi. Chi yw'r peth pwysicaf a wnaeth. Mae hynny'n eich gwneud chi'n arch-arwr. Eich pŵer yw caru Duw a phobl eraill a bod fel Duw a'ch gwnaeth chi.

# Gweddi Greadigol

Gwahoddwch bob plentyn, gan ddefnyddio beiro uwchfioled arbennig i ysgrifennu ar ddalen o bapur, 'Gwnaed gan Dduw'. Trowch y goleuadau i ffwrdd a gofynnwch i arweinydd ddisgleirio tortsh ar y darnau o bapur wrth iddyn nhw gael eu dal i fyny.

**Gweddïwch:**

*Dduw, diolch i ti am fy nghreu i.*

*Diolch dy fod wedi fy ngwneud yn archarwr, gan mai TI a'm creodd.*

*Helpa fi i ddefnyddio'r archbwer rwyt ti wedi'i roi i mi - er mwyn i mi newid y byd.*

*Helpa fi i fod yn garedig, yn dda, yn ffyddlon, yn weithgar, yn gariadus, yn llawen ac i ddod â heddwch i bobman dwi'n mynd.*

*Helpa fi i gofio bob dydd fy mod i wedi cael fy nghreu gennyt ti.*

*Amen.*

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Bydd yn rhaid i blant gartref ddefnyddio beiro a thortsh arferol
- Gofynnwch i bob plentyn yn ei dro ddal ei farc 'Gwnaed gan Dduw' i'r camera wrth i chi weddïo

# Gweithgaredd Crefft

Gan ddefnyddio darnau o gerdyn, gwnewch ffrâm ar gyfer llun gyda'r geiriau 'Crewyd gan Dduw' wedi'i ysgrifennu o amgylch y ffrâm. Pan gyrhaeddwch adref, ychwanegwch lun ohonoch chi'ch hun i'r ffram a'i hongian ar wal.

## Sesiwn nesaf:

Sesiwn 3: Exodus *a Rhyddid*

